LLAWLYFR Y DYSGWR
LEARNER'S HANDBOOK

Cyrsiau 2026/27
2026/27 Courses

CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

CYMRAEG Dysgu Learn

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynnwys // Contents

Cyflwyniad // Introduction	3
Nodau ac Amcanion y Cwrs // Aims and Objectives of the Course	4
Mynediad at gwrslyfrau ac adnoddau // Accessing coursebooks and resources	6
Siopau llyfrau Cymraeg yng Nghaerdydd // Welsh bookshops in Cardiff	6
Mathau o gwrs // Types of course	7
Lefelau // Levels	8
Strwythr y cwrs // Course structure	12
Dysgu Rhithiol // Virtual Learning	13
Sicrhau Mynediad // Accessibility	14
Anghenion Dysgu Ychwanegol // Additional Learning Needs	14
Eich proffil dysgu // Your learning profile	16
Cefnogaeth Ariannol // Financial Assistance	17
Polisïau a Gwybodaeth Bwysig Berthnasol // Important Relevant Policies and Information	18
Cod ymddygiad yn y dosbarth Cymraeg // Code of conduct in the Welsh class	19
Polisi ad-daliad // Refund policy	22
Codau disgownt // Discount codes	23
Cyfuno a chanslo cyrsiau // Combining and cancelling courses	23
Adborth, Canmol a Chwyno // Feedback, Compliments and Complaints	24
Defnydd y Gymraeg a'r Saesneg yn y dosbarth // The use of Welsh and English in class	25
Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd // Health, Safety and Environment	26
Gwaith Cartref // Homework	27
Asesu ar Gyfer Dysgu // Assessment for Learning	27
Arholiadau (Dewisol) // Examinations (Optional)	28
Cynllunio'ch Dysgu // Preparing your Learning	28
Nodau personol // Personal Objectives	29
Ymarfer eich Cymraeg // Practice your Welsh	29
Sut dych chi'n dysgu iaith orau? // How do you learn a language best?	30
Ymwelwyr i'r Dosbarth – Arsylwi Gwersi // Classroom Visitors – Lesson Observation	30
Dysgu Anffurfiol // Non-formal Learning	31
Recordio Gwersi a Chopïo Deunyddiau Dysgu // Recording Lessons and Copying Teaching Materials	31
Dyddiadau tymor // Term Dates	32
Colli gwers(i) // Unable to attend lesson(s)	33
Beth sy'n digwydd pan fydd eich tiwtor yn absennol // What to do when your tutor is absent	33
Trosglwyddo i gwrs arall // Transferring to another course	34
Deddf Diogelu Data // The Data Protection Act	34
Adnoddau a Deunyddiau Dysgu // Resources and Teaching Materials	35
Dysgu rhithol // Virtual Learning	37
Byddwch yn ddiogel ar-lein // Be safe online	37
Cysylltiadau // Contacts	38

Cyflwyniad // Introduction

Dysgu Cymraeg Caerdydd

CROESO I'R CWRS!

Yn y llawlyfr hwn cewch wybodaeth ddefnyddiol am eich taith ddysgu. Cofiwch gysylltu os bydd angen unrhyw gymorth pellach arnoch.

Yn ogystal â'ch tiwtor, mae ein tîm hŷn ar gael i gynorthwyo. Gallwch ofyn iddyn nhw am arweiniad lle bo ansicrwydd ynglŷn â rhywbeth, boed yn fater academaidd neu'n fwy personol.

Learn Welsh Cardiff

WELCOME TO THE COURSE!

In this handbook you will find useful information regarding your learning journey. Please feel free to contact us at any time if you require further assistance.

As well as your tutor, our senior team will be at hand to support learners with any issues that arise, whether they are academic or of a more personal nature.

Nodau ac Amcanion y Cwrs // Aims and Objectives of the Course

Y nod yw darparu cwrs (rhithiol neu wyneb-yn-wyneb), a fydd yn cynnwys dysgu mewn dosbarth a dysgu annibynnol, gyda'r amcan o alluogi dysgwyr i gwblhau hanner lefel (e.e. Mynediad 1), lefel gyfan (e.e. Mynediad 1 a 2) neu fwy o fewn blwyddyn academaidd (Medi–Gorffennaf).

Mae ein cyrsiau ar gyfer ystod eang o ddysgwyr – o'r rhai ag ychydig iawn o Gymraeg neu ddim o gwbl, i'r rhai sydd yn rhugl ond sydd am wella ansawdd eu Cymraeg. I ddechreuwyr a'r rhai hynny astudiodd ychydig o Gymraeg yn yr ysgol dyma gyfle i feistroli sgiliau cyfathrebu sylfaenol yn yr iaith, o fewn blwyddyn academaidd, ac y mae'n gyfle i bawb gymryd camau breision i wella a meistroli'r Gymraeg. Cyflwynir **Cymraeg safonol â gogwydd de Cymru iddo** yn y dosbarthiadau ar y lefelau cyntaf. Wrth ddringo fesul gris i'r lefelau uwch bydd yr aelodau yn ymgyfarwyddo fwy a mwy ag amrywiaethau yn y Gymraeg.

Mae'r rhan fwyaf o'r cyrsiau'n gyrsiau 30 wythnos gyda rhai cyrsiau dwysach yn 35+ wythnos. Mae hyd y gwersi'n amrywio o 2 awr yr wythnos i 6 awr yr wythnos. **Y brif nod yw cael pobl i allu siarad yn Gymraeg**, gan fagu mwy a mwy o hyder i wneud hynny. Mae cwrslyfr ar gyfer pob lefel, ac fe fydd y gwahanol diwtoriaid, pob un yn brofiadol a dawnus, yn eu defnyddio yn eu ffordd unigryw eu hunain o ddysgu.

Bydd defnyddio cymaint o Gymraeg ag sy'n bosibl yn cael ei feithrin ar bob lefel o'r cychwyn cyntaf. Bydd y sgiliau o wrando a deall, a'r gallu sylfaenol i allu darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn cael eu meithrin ar y gwahanol lefelau yn ogystal.

The aim is to provide a course (virtual or face-to-face), which will combine learning in a class with autonomous learning, with the objective of enabling students to complete half a level (e.g. Entry 1), a complete level (e.g. Entry 1 & 2) or more within an academic year (September–July).

Our courses cater for a broad spectrum of learners – from those with little or no knowledge of Welsh, to those who are fluent but want to improve the quality of their Welsh. For beginners and those who studied some Welsh at school, this is an opportunity to master basic communicative skills within an academic year, and it is a chance for everyone to take strides towards real improvement and mastery of the Welsh language. We will introduce **a standard form of Welsh with a southern slant to it** in the classes at the first levels. With each progressive step towards the higher levels, students will become more and more familiar with variations in the Welsh language.

Most courses follow a 30 week academic year with some more intensive courses following a 35+ week academic year. Lesson length varies from 2 hours per week to 6 hours per week. **The main aim is to enable you to speak Welsh**, and gain confidence in your ability. Each level has its own coursebook, and the different tutors, all being experienced and skilled, will use them in their own unique style of teaching.

We will encourage use of as much Welsh as possible at each level, right from the start. We will also develop listening comprehension and the basic ability to read and write Welsh at the different levels.

Adnoddau // Resources

Mynediad at gwrslyfrau ac adnoddau	Accessing coursebooks and resources
Defnyddir y cyrsiau a baratowyd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae'r cwrslyfrau ar gael i'w harchebu drwy ffolio.cymru, neu mewn siopau Cymraeg lleol.	We will use coursebooks prepared by the National Centre for Learning Welsh. The coursebooks are available to buy through ffolio.wales, or in local Welsh bookshops.

Mynediad // Entry

Mynediad (A1) - De Cymru/South Wales - Fersiwn 2

Sylfaen // Foundation

Sylfaen (A2) - De Cymru/South Wales – Fersiwn 2

Canolradd // Intermediate

Canolradd / Intermediate (B1) De Cymru / South Wales

Uwch 1 // Advanced 1

Uwch 1 (De/South) Fersiwn 2

Uwch 2 // Advanced 2

Uwch 2, Fersiwn 2 (B2)

Os ydych yn dilyn cwrs Uwch 2 rhan 2, byddwch yn parhau i ddefnyddio eich cwrslyfr Fersiwn 1 yn 2025/26.

If you are following an Advanced 2 part 2 course, you will continue to use your Version 1 coursebook in 2025/26.

Uwch 3 // Advanced 3

Uwch 3 (B2)

Gloywi

Bydd cwrslyfrau lefel Gloywi yn cael eu darparu'n electronig.

Gloywi level coursebooks will be provided electronically.

Siopau llyfrau Cymraeg yng Nghaerdydd // Welsh bookshops in Cardiff

CANTAMIL www.cantamil.com

100 Whitchurch Road, Mynydd Bychan, Caerdydd CF14 3LY

CABAN www.cabancanna.cymru

169 Kings Rd. Caerdydd, CF11 9DE

Mae'r cwrslyfrau hefyd ar gael yn rhad ac am ddim drwy'r we ar ffurf PDF:	The coursebooks are also available in PDF form free of charge:
https://dysgucymraeg.cymru/dysgu/llyfrgell-adnoddau/?pn=1&ps=50&k=cwrslyfrau&opt=all	https://learnwelsh.cymru/learning/resource-library/?pn=1&ps=50&k=coursebooks&opt=all

Mathau o gwrs // Types of course

Dyn ni'n darparu sawl math o gwrs gwahanol, achos mae pawb yn dysgu mewn ffordd wahanol. Dyn ni'n darparu cyrsiau **wyneb-yn-wyneb** a chyrsiau **rhithiol**.	We provide several different types of courses, because everyone learns in a different way. We provide **face-to-face** courses and **virtual** courses.
Hanner lefel mewn blwyddyn Un dosbarth o 2 awr yr wythnos. Cyflymder arafach, yn ddelfrydol i'r rhai sy eisiau dysgu'n hamddenol. Byddwch chi'n treulio tua 4 awr ar bob uned.	**Half a level in 1 year** One class of 2 hours a week. Slower paced, suits people who want to learn at a more leisurely pace. You'll spend around 4 hours on every unit.
Lefel gyfan mewn blwyddyn Tua 4 awr yr wythnos (1, 2 neu 3 dosbarth yr wythnos) Byddwch chi'n treulio tua 4 awr ar bob uned.	**A whole level in 1 year** Around 4 hours a week (1, 2 or 3 classes a week) You'll spend around 4 hours on every unit.
Cwrs cyflym Mynediad Dych chi wedi dysgu tipyn o Gymraeg yn barod? Dych chi'n dda gyda ieithoedd? 3 awr yr wythnos (1 neu 2 ddosbarth). Byddwch chi'n treulio tua 3 awr ar bob uned, sy'n llai na chyrsiau Mynediad arall.	**Fast track entry** Have you already learnt some Welsh? Are you good at languages? 3 hours a week (1 or 2 classes). You'll spend around 3 hours on each unit, which is less time than other Entry courses.
Mynediad Hamddenol Ar y cwrs yma, byddwch chi'n treulio mwy o amser ar bob uned na'n cyrsiau Mynediad traddodiadol (tua 6 awr ar bob uned)	**Leisurely Entry** On this course, you'll spend longer on each unit than our traditional Entry courses (around 6 hours on every unit)
Cyrsiau cyfunol Tua 4 awr yr wythnos. Astudio 25% o'r cwrs arlein cyn y dosbarth, a 75% yn y dosbarth. Bydd angen mynediad at gyfrifiadur arnoch chi i gwblhau'r gwaith arlein, a bydd angen i chi dreulio tua 1 awr bob wythnos yn cwblhau'r gwaith cyn y dosbarth.	**Blended learning** About 4 hours a week. Study 25% of the course online before class, and 75% in the classroom. You'll need access to a computer to complete the online work, and you'll need to set aside about 1 hour each week to complete this work before class.
Mwy nag un lefel mewn blwyddyn Dych chi eisiau dysgu Cymraeg yn gyflym? Mae'r ffordd yma o ddysgu'n waith caled ac mae'n cymryd amser, ond mae'n ffordd wych o drochi eich hun yn yr iaith ac mae'n ffordd effeithiol o ddysgu. Byddwch chi'n mynychu dosbarth sawl gwaith yr wythnos, a bydd gwaith i'w gwblhau tu allan i'r dosbarth hefyd.	**More than one level in a year** Would you like to learn Welsh quickly? This way of learning is hard work and requires a time investment, but it's a great way to immerse yourself in the language and an effective way of learning. You'll attend class several times a week, and there'll be work to complete outside of class too.
Cyrsiau Bloc Cwrs diwrnod llawn dros gyfnod o wythnos neu fwy. Dyn ni'n darparu cwrs bloc dros yr haf (2 neu 4 wythnos)	**Block courses** A full day course over a week or more. We offer a block course over the summer (2 or 4 weeks)

Lefelau // Levels

Lefelau Dysgu Cymraeg	Disgrifiad o'r gallu ieithyddol	Lefelau dysgu Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd (CEFR)	Mathau o ddefnyddiwr Cymraeg (yn ôl y CEFR)	Isafswm oriau cyswllt a argymhellir gan y Ganolfan*
Mynediad	Cyrsiau ar gyfer dechreuwyr, sy'n cyflwyno dywediadau cyfarwydd ac ymadroddion sylfaenol iawn. Bydd dysgwyr yn gallu sgwrsio mewn ffordd syml ac yn gallu dweud rhywbeth amdanyn nhw eu hunain, e.e. ble maen nhw'n byw.	A1	Defnyddiwr sylfaenol	120
Sylfaen	Ar y lefel yma, bydd dysgwyr yn gallu deall brawddegau ac ymadroddion sy'n cael eu defnyddio'n aml ac sy'n gysylltiedig â phynciau pob dydd. Bydd dysgwyr yn gallu sgwrsio am eu cefndir a'u milltir sgwâr, a siarad am wybodaeth bersonol neu deuluol; byddan nhw'n gallu dweud rhywbeth am eu gwaith a'u diddordebau.	A2	Defnyddiwr sylfaenol	120
Canolradd	Mae'r lefel yma'n addas i ddysgwyr sy'n gyfarwydd â'r rhan fwyaf o batrymau'r Gymraeg. Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd cyfarwydd yn y gwaith, yr ysgol a gweithgareddau hamdden. Byddan nhw'n gallu ysgrifennu neu ddweud rhywbeth i ddisgrifio profiadau a gobeithion, gan roi rhesymau ac esboniadau am safbwyntiau a chynlluniau.	B1	Defnyddiwr annibynnol	120
Uwch	Bydd dysgwyr yn gallu trafod pynciau a themâu o bob math ar y lefel yma. Bydd dysgwyr yn gallu sgwrsio a thrafod yn eithaf rhugl a digymell, a chynhyrchu testun clir, manwl ar ystod eang o bynciau.	B2	Defnyddiwr annibynnol	360
Gloywi	Ar y lefel yma, bydd dysgwyr yn gallu deall bron pob math o destunau, ac yn gallu mynegi eu hunain yn ddigymell, yn fanwl-gywir ac yn rhugl iawn. Byddan nhw'n gallu defnyddio'r Gymraeg yn hyblyg ac yn effeithiol yn y meysydd proffesiynol, academaidd a chymdeithasol. Mae'r cyrsiau Gloywi yn addas i ddysgwyr rhugl a siaradwyr iaith gyntaf.	C1/C2	Defnyddiwr hyfedr	

*Mae nifer yr oriau cyswllt angenrheidiol yn dibynnu ar lawer o ffactorau, e.e. cefndir iaith y dysgwyr neu'r cyfleoedd maen nhw'n eu cael i ddefnyddio'r iaith y tu allan i'r dosbarth.

Gallwch chi wylio'r fideos isod i ddysgu mwy am beth byddwch chi'n ei ddysgu ar eich lefel chi:

You can watch the videos below to learn more about what you will learn on your level:

https://youtu.be/BNBhvhALDIc?si=bbE2ab2aZiZ6u9oM

Lefel Mynediad 1 a 2

Dosbarth i ddechreuwyr yw'r lefel Mynediad. Dyma'r lefel mwyaf addas os ydych yn newydd i ddysgu Cymraeg fel oedolyn. Dros y 30 wythnos cyflwynir hanner yr holl batrymau a ystyrir yn sylfaenol i allu cynnal sgyrsiau yn Gymraeg, fel y byddwch yn dysgu confensiynau sgwrsio a chymdeithasu â'ch gilydd ar y lefel gychwynnol. Er enghraifft byddwch yn dysgu sôn am y presennol, ond hefyd byddwch yn dysgu sut i drafod profiad yn y gorffennol diweddar, a'r hyn a oedd yn arfer gennych chi ymhellach yn ôl. Byddwch yn dechrau dysgu'r patrymau iaith a ddefnyddir wrth siarad am y dyfodol yn ogystal.

Lefel Sylfaen 1 a 2

Mae'r lefel hon ar gyfer pobl sydd wedi cwblhau cwrs Mynediad (120 awr dan arweiniad Tiwtor). Dros y 30 wythnos, gan adeiladu ar y deunydd ar lefel Mynediad, cyflwynir hanner arall y patrymau a ystyrir yn sylfaenol i allu cynnal sgyrsiau yn Gymraeg a deall beth mae pobl eraill yn ei ddweud. Byddwch yn parhau i ddatblygu sgiliau cymdeithasu yn Gymraeg. Byddwch yn dysgu, er enghraifft, sut i ddefnyddio patrymau'r goddefol i sôn am ble cawsoch chi'ch geni a'ch magu, a hefyd yr amodol, er mwyn gallu sôn am beth fasech chi'n wneud tasai amgylchiadau'n caniatáu. Enghreifftiau pellach o'r hyn y byddwch yn ei ddysgu ar y lefel hon yw sut i fynegi barn a chymharu, rhoi cyngor, a chadarnhau sut i ateb cwestiynau yn gywir.

Entry level 1 & 2

The 'Entry' level which is called 'Mynediad' in Welsh is a class for beginners. This is the most suitable level if you are new to learning Welsh as an adult. Over the 30 weeks we will introduce half of all the patterns which are considered basic for being able to hold conversations in Welsh, so that you will learn the conventions of chatting and socialising at a primary level in the language. For example, you will learn to discuss situations in the present, and also how to talk about the recent past, together with things that you used to do further back in your lives. You will also make a start on the patterns used for talking about the future.

Foundation level 1 & 2

This level is for people who have completed a 'Mynediad' course (120 hours of tutor led learning). Over the 30 weeks, whilst building on the material introduced at 'Mynediad' level, we will introduce the other half of all the patterns considered basic to being able to hold conversations in Welsh, and understanding what other people are saying. Socialising skills through the medium of Welsh will continue to be developed. For example, you will learn to use the patterns of the passive voice to talk about where you were born and brought up, and the conditional to talk about what you might do were circumstances to permit. Further examples of what is taught at this level are, being able to express an opinion and compare, give advice, and consolidate how to answer questions correctly.

Lefel Canolradd 1 a 2

Dyma'r lefel lle byddwch chi'n adolygu'r sylfeini a ddysgwyd yn ystod y cyrsiau Mynediad a Sylfaen, ynghyd ag adeiladu arnynt, a dod yn fwy rhugl yn yr iaith, gan ehangu geirfa a dealltwriaeth gyffredinol. Bydd y Gymraeg yn cael ei defnyddio cymaint â phosib fel iaith y dosbarth a gobeithir y byddwch yn mentro defnyddio'r Gymraeg yn gynyddol y tu allan i'r dosbarth. Byddwch yn cael darnau darllen a deall, a gwrando a deall o ddiddordeb, ynghyd ag ymarferion a gweithgareddau. Bydd y pethau hyn yn rhoi cyfle i chi gadarnhau gwybodaeth o amseroedd berfau, a chymalau ac arddodiaid, er mwyn eich helpu i fireinio'ch defnydd o'r iaith. Byddwch yn ymgyfarwyddo â deall y newyddion yn Gymraeg, a'r iaith ychydig yn fwy ffurfiol sy'n cyd-fynd ag ef.

Lefel Uwch i (rhan 1 a 2)

Ar y lefel hon bydd disgwyl i chi allu ymdopi â'r Gymraeg yn cael ei defnyddio fel iaith gyfathrebu rhwng tiwtor a myfyrwyr, a rhwng myfyrwyr a'i gilydd. Dyma'r cam cyntaf at feistroli'r Gymraeg ar lefel uwch, a'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig yn y byd Cymraeg go iawn. Byddwch yn cael cyfle i ddechrau dod yn gyfarwydd â chyweiriau mwy ffurfiol yr iaith ysgrifenedig, yn ogystal â datblygu sgiliau defnyddio'r iaith ar lafar yn ddeheuig. Rhoddir sylw i arddodiaid cyfansawdd, chynffoneiriau ac iaith gyhoeddus er enghraifft. Byddwch yn parhau i ymestyn y defnydd o batrymau sylfaenol ac adeiladu arnynt, er mwyn hwyluso'ch defnydd o'r iaith yn y byd gwaith yn ogystal ag yn gymdeithasol.

Intermediate level 1 & 2

This is the level where the basics that were learnt on the Mynediad and Sylfaen courses are reviewed, and you will go on to build on this foundation, becoming more fluent in the language, expanding vocabulary and general comprehension. Welsh will be used as much as possible as the language of the class, and hopefully you'll gain confidence to use Welsh increasingly outside the classroom too. Interesting listening and reading comprehension pieces form part of the course, together with exercises, and activities which will afford the opportunity to consolidate how to handle verb tenses, clauses and prepositions in order that you can gain ground with correct use of Welsh. You will become familiar with understanding news bulletins in Welsh, and the slightly more formal type of Welsh used in them.

Advanced Level i (part 1 & 2)

At this level it is expected that you will be able to take it in your stride that Welsh will be the norm as regards communication between tutor and student, and between student and student. This is the first step towards gaining mastery of the Welsh language at an advanced level, and being able to use both spoken and written Welsh in the real Welsh speaking world. You will have the opportunity to start becoming familiar with the more formal registers of written Welsh as well as developing a skilful fluency in spoken Welsh. Compound prepositions, verbal tags, and use of Welsh in public will be given attention for example. We will continue to extend and build upon the use of basic patterns, to facilitate the use of the language in the workplace as well as in social situations.

Lefel Uwch ii (rhan 1 a 2)

Y bwriad ar y lefel hon yw i'r myfyrwyr sy'n dilyn y cwrs hwn ennill meistrolaeth ar yr iaith, yn ei gwahanol gyweiriau. Byddwch yn datblygu hyfedredd yn yr iaith yn naturiol yn y grŵp hwn wrth i'r Gymraeg gael ei defnyddio rhwng yr aelodau â'i gilydd yn ogystal â rhyngddynt â'r tiwtor. Byddwch yn datblygu dealltwriaeth o dafodieithoedd llafar Cymru yn ogystal â'r iaith ysgrifenedig, boed ar gyfer pwrpas busnes, mwynhau llenyddiaeth neu ysgrifennu'n anffurfiol. Cewch eich tywys i ymgyfarwyddo â phriod-ddulliau'r Gymraeg, a'r ffordd arbennig y bydd Cymry'n mynegi eu hunain ynddi. Bydd rhan o'r gwersi'n rhoi peth gwybodaeth gefndirol ddiwylliannol sylfaenol, sy'n rhan o'r hyn y mae'n ei olygu i berthyn i'r gymuned Gymraeg ei hiaith. Cewch hefyd flas ar batrymau'r iaith lenyddol fel y mae'n cael ei defnyddio mewn rhai nofelau, cerddi a chaneuon sy'n agos at galon y Cymry.

Lefel Uwch iii (rhan 1 a 2)

Mae'r cwrs hwn yn addas ar gyfer pobl sydd wedi cwblhau Uwch i a ii. Gallwch sefyll arholiad Uwch ar ôl y cwrs hwn, os ydych yn dymuno. Bydd llawer o waith siarad a thrafod ar y cwrs hwn, yn ogystal â gwella eich sgiliau gwrando, gwylio, ysgrifennu a darllen. Erbyn diwedd y cwrs byddwch yn gallu mwynhau defnyddio'r Gymraeg yn hyderus yn eich bywyd a gwaith dyddiol.

Advanced Level ii (part 1 & 2)

This is the level where the basics that were learnt on the Mynediad and Sylfaen courses are reviewed, and you will go on to build on this foundation, becoming more fluent in the language, expanding vocabulary and general comprehension. Welsh will be used as much as possible as the language of the class, and hopefully you'll gain confidence to use Welsh increasingly outside the classroom too. Interesting listening and reading comprehension pieces form part of the course, together with exercises, and activities which will afford the opportunity to consolidate how to handle verb tenses, clauses and prepositions in order that you can gain ground with correct use of Welsh. You will become familiar with understanding news bulletins in Welsh, and the slightly more formal type of Welsh used in them.

Advanced Level iii (part 1 & 2)

This course is suitable for those who have completed Advanced i and ii. You can sit the Advanced exam after this course, if you wish. There will be a lot of speaking and discussion tasks on this course, as well as improving listening, watching, writing and reading skills. By the end of the course you will be able to enjoy using Welsh confidently in your daily life and work.

Lefel Gloywi

Mae'r lefel hwn ar gyfer siaradwyr a dysgwyr rhugl sy'n dymuno gwella eu sgiliau Cymraeg. Maen nhw'n diwallu anghenion gwahanol ddysgwyr:

Dal Ati, Magu Hyder Sgwrsio

I'r rheini sy wedi cwblhau cyrsiau lefel Canolradd neu Uwch a sy'n dymuno parhau i ddysgu gyda thiwtor.

Gloywi

I siaradwyr rhugl sy'n dymuno gwella eu gwybodaeth o ramadeg y Gymraeg a Chymraeg ffurfiol, broffesiynol.

Lefel Gloywi (Proficiency)

This level is for fluent speakers and learners who wish to improve their Welsh skills. They cater for different learners needs:

Dal Ati, Magu Hyder Sgwrsio

For those who have completed Intermediate or Advanced level courses and wish to continue learning with a tutor.

Gloywi

For fluent Welsh speakers who wish to improve their knowledge of Welsh grammar and formal, professional Welsh.

Strwythr y cwrs // Course structure

Mae'r cwrslyfrau wedi eu rhannu yn unedau unigol sy'n canolbwyntio ar batrwm ieithyddol neu bwnc. Mae'r unedau wedi eu llunio gyda'r bwriad o alluogi dysgwyr i **wneud pethau yn Gymraeg** a defnyddio'r iaith i gyfathrebu. Mae gwaith cartref gyda phob uned i atgyfnerthu'r gwaith dych chi'n ei wneud yn y dosbarth.

Bydd y tiwtor yn eich helpu chi i ymarfer y patrymau iaith, a byddwch chi'n cael y cyfle i ymarfer mewn pâr neu grŵp bach mewn dosbarth rhithiol neu wyneb-yn-wyneb.

The coursebooks are divided into individual units which focus on particular grammatical patterns or subjects. The units are designed to enable learners to **do things in Welsh**, and to use the language to communicate. There is 'Gwaith Cartref' (Homework) with each unit to reinforce the work from class.

The tutor will help you to practice the language patterns, and you'll have the opportunity to practice in a pair or small group in virtual and face-to-face classes.

Dysgu Rhithiol // Virtual Learning

Anghenion Technolegol

Bydd gwersi rhithiol yn cael eu cynnal ar y we dros Zoom. Er mwyn cymryd rhan ar y cwrs, bydd angen yr offer addas canlynol:

- Cysylltiad cryf a dibynadwy â'r we
- Cyfrifiadur / gliniadur / tablet / ffôn glyfar* gyda sain
- Camera a meicroffon ar eich dyfais
- Lleoliad tawel i gymryd rhan yn y gwersi

**Nodwch bydd Zoom yn gweithio orau ar gyfrifiadur neu liniadur.*

Dyn ni'n annog dysgwyr i gadw camera ymlaen er mwyn gallu cymryd rhan llawn yn y wers. Mae gweld eich wyneb a'ch ymateb yn helpu'r tiwtor eich dysgu chi.

Os oes cwestiwn gyda chi neu os oes angen cymorth arnoch chi, cysylltwch â'r swyddfa:

+44 29 2087 4710 neu
dysgucymraeg@cardiff.ac.uk

Sut i ymuno â'r dosbarth

Byddwch yn cael gwahoddiad gan eich tiwtor drwy e-bost cyn dechrau'r cwrs i ymuno â'ch dosbarth Zoom. Bydd dolen gyswllt yn yr e-bost i chi glicio arni er mwyn cael mynediad.

Bydd angen defnyddio eich cyfeiriad ebost Prifysgol Caerdydd i gael mynediad i'r dosbarth. Byddwn yn ebostio manylion y cyfeiriad yma atoch cyn dechrau'r cwrs.

Technical Requirements

Virtual lessons will be conducted online via Zoom. In order to take part in the course, you will need the following suitable equipment:

- A strong and reliable internet connection
- Computer / laptop / tablet / smartphone* with sound
- A camera and a microphone on your device
- A quiet location to take part in the lessons

**Please note that Zoom works best on a computer or laptop.*

We encourage learners to keep their cameras on in order to take full part in the lesson. Seeing your face and reactions helps your tutor to teach you.

Os oes cwestiwn gyda chi neu os oes angen cymorth arnoch chi, cysylltwch â'r swyddfa:

+44 29 2087 4710 or
dysgucymraeg@cardiff.ac.uk

How to join the class

You will receive an invitation from your tutor through e-mail before the start of the course to join your Zoom class. There will be a link in the e-mail for you to click on in order to gain access.

You will need to use your Cardiff University email address to gain entry to the class. We will email the details to you before the course starts.

Sicrhau Mynediad // Accessibility

Mae'r iaith Gymraeg i bawb. Rydym yn anelu at gynnig gwasanaeth teg a chyfartal i'n holl ddysgwyr, beth bynnag fo'u rhyw, tarddiad ethnig, oed, rhywioldeb, crefydd neu anabledd. Gallwn gynnig cymorth ychwanegol i ddysgwyr all elwa o hynny.

Rydym wedi ymrwymo i greu diwylliant cynhwysol sydd wedi'i seilio ar gydraddoldeb ac amrywiaeth ac rydym yn anelu at sicrhau mynediad i'n holl gyrsiau i bob dysgwr; boed ar-lein neu mewn ystafell ddosbarth. Mae hyn yn cwmpasu cymorth dysgu fel print bras, nodiadau ar bapur lliw ayyb. Rydym hefyd yn cefnogi'n tiwtoriaid i ddatblygu strategaethau dysgu cynhwysol.

The Welsh language is for everyone. We aim to offer a fair and equal service to all its learners, regardless of their sex, ethnic origin, age, sexuality, religion or disability. We are able to offer additional support to learners who may benefit from extra help.

We are committed to creating an inclusive culture based on equality and diversity, and we aim to make our courses as accessible as possible for all learners, whether on-line or in a classroom. This includes providing support such as large print, notes on coloured paper etc. We also support our tutors in developing inclusive teaching strategies.

Anghenion Dysgu Ychwanegol // Additional Learning Needs

Mae modd datgan anghenion ychwanegol wrth ymrestru a rhannu gwybodaeth bellach gyda'ch tiwtor, os ydych yn dymuno. Gallwch hefyd ddiweddaru y manylion hyn ar eich proffil dysgu. Os hoffech drafod cefnogaeth unigol neu addasiadau ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol, cysylltwch â ni.

You can declare any additional needs when enrolling, and share additional information with your tutor if you wish. You can also update these details on your learning profile. If you wish to discuss individual support or adjustments for additional learning needs please contact us.

Pa gefnogaeth sy ar gael i fi?

Mae'r addasiadau a'r gefnogaeth sy ei angen yn amrywio i bob unigolyn – yn bendant does dim un dull i bawb, felly bydden ni'n argymell trafod gyda'ch tiwtor pa agweddau ar y dysgu y gallech chi fod angen cymorth gyda nhw, neu ba addasiadau sy angen arnoch chi.

Dyma rai o'r pethau allai'ch helpu:

- Cwrslyfr mewn fformat gwahanol e.e. fformat electronig, ffeiliau sain, ffont mwy, heb liw cefndir, braille *(noder bod angen 2 fis o rybudd ar gyfer braille)*
- Adnoddau ar bapur lliw / defnyddio cefndir lliw gyda dogfennau electronig e.e. bwrdd gwyn
- Sgriptiau o ffeiliau sain
- Disgrifiadau o fideos / lluniau
- Tynnu llun o'r bwrdd gwyn/sgwrs neu dderbyn ffeil o'r sgwrs ar ôl y wers
- Pan yn gwneud gwaith grŵp, aros mewn pâr bob tro neu aros fel grŵp o 3

What support is available to me?

The adjustments and support required varies by individual – there is definitely no one size fits all, so we'd recommend discussing with your tutor what aspects of learning you might need support with, or which adjustments you require.

Dyma rai o'r pethau allai'ch helpu:

- Coursebook in different formats e.g. electronic format, sound files, larger font, without a background colour, braille *(please note we require 2 months' notice for braille)*
- Resources on coloured paper / using a background colour with electronic documents e.g. whiteboard
- Scripts of audio files
- Descriptions of videos / photos
- Taking a photo of the whiteboard / chat, or receiving the chat as a file after the lesson
- When doing group work, always working in a pair or in a group of 3

Mewn dosbarth wyneb-yn-wyneb efallai bydd rhai ystyriaethau ymarferol bydd eich tiwtor angen cael gwybod amdanynt:

- Eistedd ym mlaen y dosbarth er mwyn gweld y bwrdd gwyn yn glir / clywed y tiwtor yn glir
- Angen darllen gwefusau
- Anghenion symudedd

Byddem yn ddiolchgar i dderbyn ceisiadau am addasiadau cyn i'r cwrs ddechrau neu cyn gynted ag y bo modd.

Cofiwch fod croeso i chi godi unrhyw beth dych chi eisiau ei drafod gyda'ch tiwtor neu gyda aelod o'r tîm hŷn.

In a face-to-face class, there may be some practical considerations your tutor may need to know about:

- Sit in front of the class in order to see the whiteboard clearly / hear the tutor clearly
- Need to lipread
- Mobility needs

We would be grateful to receive any requests for adjustments prior to the course commencing or as soon as possible.

Remember that you are welcome to raise any matters you may wish to discuss with your tutor or with a member of the senior team.

Eich proffil dysgu // Your learning profile

Drwy ymrestru ar gwrs dych chi wedi creu proffil ar dysgucymraeg.cymru.

Gallwch chi ddiweddaru eich manylion cyswllt, neu roi gwybod i ni eich bod yn dymuno rhannu gwybodaeth gyda'ch tiwtor am anghenion ychwanegol drwy ddilyn y camau isod.

1) Mynd i dysgucymraeg.cymru

2) Mewngofnodi

3) Clicio ar y saeth nesa i'ch enw chi

By enrolling on a course you have created a profile on learnwelsh.cymru

You can update your contact details, or let us know that you wish to share information with your tutors about additional learning needs by following the steps below.

1) Go to learnwelsh.cymru

2) Log in

3) Click on the arrow next to your name



4) Clicio ar "fy nghyfrif"

Os dych chi'n dymuno rhannu gwybodaeth am anghenion dysgu ychwanegol gyda thiwtor, dylech chi nodi unrhyw fanylion yn y bocs:



4) Click on "my account"

If you wish to share information about additional learning needs with your tutor, you should note any details in the box:



Cefnogaeth Ariannol // Financial Assistance

Mae cymorth ar gael drwy'r Gronfa Ariannol wrth Gefn i Ddysgwyr. Mae posib cael cymorth ariannol i'ch helpu gyda chostau fel:

- gofal plant
- ffi arholi
- adnoddau
- costau teithio

**Yn anffodus, nid oes modd hawlio cymorth at ffioedd cwrs*

I wirio eich bod yn gymwys, ac ar gyfer mwy o wybodaeth, ewch i: https://dysgucymraeg.cymru/cymorth/cronfa-ariannol/

Assistance is available through the Financial Contingency Fund for Learners. It's possible to receive assistance with costs such as:

- childcare
- exam fees
- resources
- travel costs

**Unfortunately, it is not possible to claim for course fees*

To check if you're eligible, and for more information, please go to: https://learnwelsh.cymru/support/financial-support/

Polisïau a Gwybodaeth Bwysig Berthnasol // Important Relevant Policies and Information

Mae manylion am bolisïau Prifysgol Caerdydd i'w cael ar wefan y Brifysgol. Cofiwch gymryd yr amser i ddarllen a dilyn y polisïau.	**You can find information about Cardiff University's policies on the website.** Please take some time to read and follow the policies.
Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	Equality and Diversity Policy
Polisi TG	IT Policy
Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd Diogelu	Health, Safety and Environment Safeguarding

Cod ymddygiad yn y dosbarth Cymraeg // Code of conduct in the Welsh class

Dyn ni'n disgwyl bawb ymddwyn yn gyfrifol ac yn barchus tuag at eraill yn y dosbarth. Mae cydraddoldeb yn bwysig iawn i ni o ran oed, anabledd, rhyw, cyfeiriadaeth rywiol, newid rhyw, hil, crefydd a chred (yn cynnwys pobl heb gred), priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth.

Fyddwn ni ddim yn derbyn unrhyw sylwadau amhriodol yn y dosbarth.

Os yw Dysgu Cymraeg Caerdydd yn meddwl bod eich ymddygiad yn effeithio ar weddill y dosbarth, efallai y byddwn yn eich tynnu o gwrs.

Os dych chi mewn dosbarth rhithiol, er eich bod yn eich cartref eich hun, dylech chi drin y dosbarth rhithiol fel dosbarth 'go iawn'. Cofiwch felly bod angen gwisgo, siarad ac ymddwyn yn briodol a gyda pharch tuag at eich cyd-ddysgwyr. Rydym hefyd yn annog ein dysgwyr i droi'r fideo ymlaen.

Mae gofyn i bawb ddilyn polisi Urddas yn y Gwaith ac wrth Astudio Prifysgol Caerdydd.

Mae rhagor o wybodaeth yma am gydraddoldeb ac amrywioldeb yn y Brifysgol.

We expect everyone behave responsibly and respect others in the class. We are committed to advancing equality on the grounds of age, disability, sex and sexual orientation, gender reassignment, race, religion and belief (including lack of belief), marriage and civil partnership, pregnancy and maternity.

Inappropriate remarks of any sort will not be tolerated.

If Learn Welsh Cardiff thinks that your behaviour affects the rest of the class, we may withdraw you from the course.

If you are learning virtually, although you will be learning from home, please treat the virtual classroom as a 'real' classroom. Please remember to dress, speak and behave appropriately and with respect towards your fellow learners. We also encourage learners to switch their video on.

Everyone is required to follow Cardiff University's Dignity at Work and Study policy.

There is further Information here about equality and diversity at the University.

Cod Ymddygiad i ddysgwyr a thiwtoriaid Cymraeg

Mae croeso i bawb ddysgu Cymraeg.

1. 'Dyn ni'n disgwyl ymddygiad o safon uchel. Mae disgwyl i bawb fod yn gefnogol a chynhwysol mewn dosbarthiadau a gweithgareddau a drefnir gan y sector Dysgu Cymraeg.
2. Rhaid dangos parch a chwrteisi i bawb, heb wahaniaethu ar sail rhywedd, ailbennu rhywedd, hil, anabledd, beichiogrwydd a mamolaeth, rhywioldeb, oedran, crefydd a chred, neu briodas a phartneriaeth sifil.
3. 'Dyn ni ddim yn goddef sylwadau nac ymddygiadau amhriodol na hiliol.
4. Mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb, beth bynnag eu cefndir a'u gwlad enedigol.
5. Mae'r sector Dysgu Cymraeg yn gweithredu ar sail egwyddor dim goddefgarwch tuag at unrhyw wahaniaethu ac ymdrinnir ag unrhyw ddigwyddiadau gan ddilyn y polisïau perthnasol.
6. Os dych chi'n teimlo eich bod chi neu rywun arall ddim yn cael triniaeth deg, cysylltwch â'ch darparwr cyrsiau.

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Code of Conduct for Welsh learners and tutors

Everyone is welcome to learn Welsh.

1. We expect high standards of behaviour and expect everyone to be supportive and inclusive in classes and activities organised by Dysgu Cymraeg/Learn Welsh.
2. You must demonstrate respect and show courtesy to everyone without any differentiation on the basis of sex, gender reassignment, race, disability, pregnancy and maternity, sexuality, age, religion and belief, or marriage and civil partnership.
3. We do not tolerate inappropriate or racist remarks or behaviour.
4. Welsh belongs to everyone, whatever their background or native country.
5. The Dysgu Cymraeg/Learn Welsh sector operates on the principle of zero tolerance towards any differentiation and any events will be dealt with by following the relevant policies.
6. If you feel that you or anyone else is not receiving fair treatment, please contact your course provider.

Polisi ad-daliad // Refund policy

Byddwn yn cynnig yr ad-daliadau isod:	Our refund policy is as follows:
Cyrsiau blwyddyn academaidd (20 wythnos +)	**Academic year courses** (20 weeks +)
• Cyn i'r cwrs ddechrau – 80% o'r ffi • O fewn y 4 wythnos gyntaf – 50% o'r ffi • Ar ôl y 4 wythnos gyntaf – dim ad-daliad	• Prior to course start – 80% of the fee • Within first 4 weeks – 50% of the fee • After first 4 weeks – no refund
Cyrsiau 1 tymor (8 wythnos neu lai)	**1 term courses** (8 weeks or less)
• Cyn i'r cwrs ddechrau – 80% o'r ffi • O fewn yr wythnos gyntaf – 50% o'r ffi • Ar ôl yr wythnos gyntaf – dim ad-daliad	• Prior to course start – 80% of the fee • Within the first week – 50% of the fee • After the first week – no refund
Cwrs haf 2 neu 4 wythnos	**Summer course** 2 neu 4 weeks
• Cyn i'r cwrs ddechrau – 80% o'r ffi • O fewn yr wythnos gyntaf – 50% o'r ffi • Ar ôl yr wythnos gyntaf – dim ad-daliad	• Prior to course start – 80% of the fee • Within the first week – 50% of the fee • After the first week – no refund
Cyrsiau bloc 1 wythnos	**Block courses** 1 week
• Cyn i'r cwrs ddechrau – 80% o'r ffi • O fewn y diwrnod cyntaf – 50% o'r ffi • Ar ôl y diwrnod cyntaf – dim ad-daliad	• Prior to course start – 80% of the fee • Within the first day – 50% of the fee • After first day – no refund
Cyrsiau byr 1 neu 2 ddiwrnod	**Short courses** 1 or 2 days
• Cyn i'r cwrs ddechrau – 80% o'r ffi • Ar ôl i'r cwrs ddechrau – dim ad-daliad	• Prior to course start – 80% of the fee • After course start – no refund

Codau disgownt // Discount codes

Dyn ni'n cynnig codau disgownt ar adegau penodol o'r flwyddyn (e.e. cyw cynnar) ac ar gyfer dysgwyr penodol.

We offer discount codes at certain times of the year (e.g. early bird) or for certain learners.

Mae cyrsiau am ddim ar gael i'r dysgwyr isod:

- Dysgwyr sy'n hawlio budd-daliadau
- Staff Prifysgol Caerdydd
- Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd
- Dysgwyr 18 – 25 oed
- Dysgwyr sy'n gweithio yn y sector addysg
- Ceiswyr lloches a ffoaduriaid

Cysylltwch â - **dysgucymraeg@cardiff.ac.uk** am fwy o wybodaeth am hawlio cwrs am ddim.

Free courses are available to the following learners:

- Learners who claim benefits
- Cardiff University staff
- Cardiff University students
- Learners aged 18 – 25
- Learners working in the education sector
- Asylum seekers and refugees

Please contact - **dysgucymraeg@cardiff.ac.uk** for more information about claiming a free course.

Noder: nid oes modd hawlio dau ostyngiad gwahanol am yr un cwrs

Please note: it's not possible to claim two discounts for the same course.

Cyfuno a chanslo cyrsiau // Combining & cancelling courses

Os bydd nifer y dysgwyr yn eich dosbarth yn cwympo i lai na 10 yn ystod y flwyddyn neu lai na 6 ar gwrs Uwch, mae posibilrwydd y byddwn yn cau'r cwrs ac yn cynnig i chi drosglwyddo i gwrs arall.

Byddwn ni'n ceisio rhoi rhybudd o leiaf pythefnos ymlaen llaw i aelodau'r dosbarth os bydd angen gwneud hyn.

If the number of learners in your class falls to less than 10 during the year and lower than 6 on an Advanced course, there is a possibility that we will close the course and offer for you to transfer to another course.

We will try to give at least two weeks' notice to class members if this needs to be done.

Adborth, Canmol a Chwyno // Feedback, Compliments and Complaints

Ein nod yw darparu profiad rhagorol i chi, y dysgwr. Er mwyn gwneud hyn, rhaid i ni glywed wrthoch chi am beth dyn ni'n ei wneud yn dda a ble dyn ni angen gwella.

Mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i ni pan mae ein darpariaeth yn disgyn islaw'r safon gofynnol. Bydd hyn yn ein cynorthwyo i wella safon y ddarpariaeth.

Dyn ni'n anelu i ddarparu'r profiad gorau posibl i'n dysgwyr, ond efallai na fyddwch chi bob amser yn gwbl fodlon.

Byddwn yn -

- gwrando arnoch chi
- ymchwilio i bob cwyn yn drylwyr
- cydnabod ac yn dysgu o'n camgymeriadau
- ceisio gwella ein darpariaeth yn barhaus
- ymddiheuro am ddiffygion, a gwneud yr hyn a allwn ni i gywiro pethau

Canmoliaeth

Hoffen ni gael gwybod os dych chi wedi cael eich plesio gyda'n darpariaeth. Gallwn ddefnyddio'r esiamplau hyn i rannu arfer da ac i annog gwelliant parhaus ymysg ein staff.

Our aim is to provide an excellent service to you, the learner. In order to achieve this, we need to know in which areas we excel and where we need to improve.

It is important that you let us know when our provision falls below the required standard. This will help us improve the standard of the provision.

We aim to provide the best possible experience to our learners, but sometimes you may not be entirely satisfied.

We will -

- listen to you
- investigate all complaints thoroughly
- acknowledge and learn from our mistakes
- continually try to improve our services
- apologise where there have been shortcomings and do what we can to put things right

Compliments

We would like to know when you have been impressed or pleased with our provision. We can use these examples to share best practice and encourage continuous improvement amongst our staff.

Sut i gwyno amdanom neu i ganmol
How to complain about us or compliment us

Gallwch wneud cwyn neu ganmol mewn nifer o ffyrdd; wyneb-yn-wyneb, dros y ffôn, mewn ysgrifen, e-bost, drwy holiadur adborth, neu drwy ein Blwch Adborth Rhithiol.

Os dymunwch chi gysylltu ag aelod o staff yn uniongyrchol, gallwch wneud hynny dros ebost neu dros y ffôn:

You can make a complaint or pay us a compliment in a number of ways be it in person, over the phone, in writing, e-mail, through a feedback questionnaire or through our Virtual Suggestion Box.

If you wish to contact a member of staff directly, you can do so by email or by phone:

Defnydd y Gymraeg a'r Saesneg yn y dosbarth // The use of Welsh and English in class

Mae pwyslais ein cyrsiau ar ansawdd y dysgu, siarad Cymraeg a mwynhau.

Y ffordd orau o ddysgu iaith yw ei defnyddio a'i chlywed mor aml â phosib. Bydd eich tiwtoriaid yn defnyddio cymaint o Gymraeg â sy'n bosib o'r cychwyn cyntaf, gan ddefnyddio geirfa a phatrymau sy'n gyfarwydd i chi.

The emphasis in our courses is on the quality of the teaching, speaking Welsh and enjoyment.

The best way to learn a language is to use and hear it as often as possible. Your tutors will use as much Welsh as possible from the very start, using vocabulary and patterns which are familiar to you.

Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd // Health, Safety and Environment

Mae Dysgu Cymraeg Caerdydd yn rhan o Brifysgol Caerdydd. Gallwch chi ddarllen y polisïau yma.

Mae gan y Brifysgol ymrwymiad i:

- Ddarparu amgylchedd ddiogel ac iachus i weithio a dysgu
- Diogelu'r amgylchedd
- Adolygu polisïau iechyd, diogelwch, amgylchedd a lles yn rheolaidd

Dyn ni'n gofyn i bob dysgwr

- Roi gwybod i'r tiwtor, neu i Dysgu Cymraeg Caerdydd, am unrhyw bryderon am iechyd a diogelwch
- Bydd eich tiwtor yn dweud wrthoch chi beth i'w wneud os oes tân. Os dych chi'n anabl a byddai angen help arnoch i adael yr adeilad, siaradwch ag aelod o staff am hyn.
- Dwedwch wrth aelod o staff os gwelwch chi rywbeth sy'n beryglus i iechyd a diogelwch dysgwyr eraill, staff, neu aelodau'r cyhoedd.
- Dilynwch y cyfarwyddiadau iechyd a diogelwch dych chi'n eu cael gan eich tiwtor neu Dysgu Cymraeg Caerdydd

Learn Welsh Cardiff is part of Cardiff University and follows the University's policies. You can read these policies here.

The University has a commitment to:

- Provide a safe and healthy working and learning environment
- Protect the environment
- Review health, safety, environment and wellbeing policies regularly

We ask that all learners

- Inform the tutor, or Learn Welsh Cardiff, of any concerns about health and safety
- Your tutor will let you know what to do in the event of a fire. If you're disabled and would require help to leave the building, please speak to a member of staff.
- Tell a member of staff if you see something that is dangerous to the health and safety of other learners, staff, or members of the public
- Follow the health and safety instructions given to you by your tutor or Learn Welsh Cardiff

Gwaith Cartref // Homework

Bydd eich tiwtor yn gosod Gwaith Cartref ar ddiwedd pob uned. Mae'n gyfle i chi ymarfer y tu allan i'r dosbarth, a bydd eich tiwtor yn ei farcio ac yn rhoi adborth i chi.

Gallwch chi ddod o hyd i'r gwaith cartref yng nghefn y cwrslyfr, neu maen nhw ar gael ar ffurf PDF trwy'r ddolen hon:
Gwaith Cartref | Dysgu Cymraeg

Anogir chi i gwblhau'r gwaith cartref fel rhan o broses ddysgu effeithiol. Dylid cwblhau gwaith cartref mor fuan â phosibl ar ôl cwblhau'r uned (o fewn wythnos, os yn bosib). Fel arfer bydd eich gwaith yn cael ei farcio gan diwtor eich dosbarth. Er mwyn cefnogi ein tiwtoriaid gyda baich gwaith, mae'n bosib bydd eich gwaith yn cael ei farcio gan diwtor arall ar gyfnodau prysur.

Your tutor will set Homework at the end of each unit. This is an opportunity for you to practice outside of class, and your tutor will mark this and give you feedback.

You can find the homework in the back of your coursebook, or they're available in PDF format through this link: Homework | Learn Welsh

You are encouraged to complete the homework as part of an effective teaching process. You should complete the homework as soon as possible after completing the unit (within a week, if possible). Your homework will usually be marked by your class tutor. To help our tutors with workload, it's possible that your work will be marked by another tutor at busy periods.

Asesu ar Gyfer Dysgu // Assessment for Learning	
Byddwch yn derbyn adborth cyson gan eich tiwtor ar eich cynnydd a beth sydd angen i chi ei wneud i wella. Weithau bydd yr adborth yma yn ysgrifenedig, ar lafar neu yn ddysgwr ganolog.	During the course your tutor will give you feedback on your progress and what you need to do to continuously improve. Sometimes this feedback might be written, verbal or learner focused.

Arholiadau (Dewisol) // Examinations (Optional)

Rydym yn annog pob dysgwr i sefyll arholiadau CBAC 'Defnyddio'r Gymraeg' – Mynediad, Sylfaen, Canolradd, ac Uwch.

Mae dysgwyr sy'n sefyll arholiadau yn teimlo eu bod yn rhoi ffocws iddynt i weithio'n galed ac mae'r boddhad o basio, neu hyd yn oed ennill rhagoriaeth, yn deimlad braf iawn!

Nodwch os gwelwch yn dda, bydd Dysgu Cymraeg Caerdydd yn cynnig y cyfle i bob dysgwr 2026/27 cymwys sefyll yr arholiadau heb orfod talu ffioedd arholiadau. Fodd bynnag, os dych chi'n ymrestru i sefyll arholiad, bydd yn ofynnol i chi dalu ffi llawn yr arholiad, os byddwch yn penderfynu peidio sefyll yr arholiad wedi hynny.

We encourage all learners to sit WJEC examinations 'Defnyddio'r Gymraeg' – Entry, Foundation, Intermediate, and Higher.

Learners who sit examinations feel that they give them a focus to work hard and they also give them a sense of satisfaction when passing, or indeed achieve excellence.

Please note, Learn Welsh Cardiff will offer all eligible 2026/27 learners the opportunity to sit the examinations free of charge. However, if you complete an enrolment form to sit an examination, the full fee for that examination will be payable, if you decide, at a later date, not to sit the examination.

Cynllunio'ch Dysgu // Preparing your Learning

Bydd eich tiwtor yn rhoi **cynllun gwaith** i chi ar ddechrau'r cwrs. Bydd e'n dangos i chi beth byddwch chi'n ei wneud o wers i wers drwy'r flwyddyn. Bydd y cynllun gwaith yn arbennig o ddefnyddiol i chi os bydd rhaid i chi golli gwersi yn ystod y tymor. Gallwch chi hefyd weld dyddiadau gwyliau eich cwrs chi ar y cynllun gwaith.

Your tutor will give you a **scheme of work** at the beginning of the course. It will show you what you will be doing from lesson to lesson throughout the year. The scheme of work will be especially useful to you if you have to miss lessons during term. You can also see your course's holiday dates on the scheme of work.

Nodau personol // Personal Objectives

Bydd eich tiwtor yn trafod gyda chi a'ch dosbarth sut dych chi eisiau defnyddio'r Gymraeg tu allan i'r dosbarth. Efallai'ch bod chi eisiau siarad Cymraeg gyda'ch plant, gyda teulu neu ffrindiau, yn eich gwaith. Byddwch chi'n trafod syniadau a tips am sut i fwynhau defnyddio eich Cymraeg drwy'r flwyddyn.

Mae syniadau i'ch ysbrydoli ar wefan Dysgu Cymraeg: Defnyddio Fy Nghymraeg | Dysgu Cymraeg

Your tutor will discuss with you and your class how you want to use your Welsh outside of class. Perhaps you want to speak Welsh with your children, with friends or family, in your work. You'll discuss ideas and tips for how to enjoy using your Welsh throughout the year.

There are ideas to inspire you on the Learn Welsh website: Using My Welsh | Learn Welsh

Ymarfer eich Cymraeg // Practice your Welsh

Er mwyn llwyddo i ddysgu'r iaith, mae angen i chi ymarfer eich Cymraeg y tu allan i'r dosbarth. Ar gyrsiau 60 awr a 120 awr mewn blwyddyn, awgrymir eich bod yn gwneud 18 awr o ymarfer y tu allan i'r dosbarth. Gallai hyn gynnwys mynd i grwpiau coffi a chlonc, gwrando ar y radio, gwylio S4C ac ati. Ar gyfer cyrsiau mwy dwys, awgrymir eich bod yn gwneud 36 awr y tu allan i'r dosbarth.

Mae ein Rheolwr Marchnata a Profiad y Dysgwr, Gwenllian Willis, yn cysylltu yn wythnosol gyda manylion gweithgareddau a digwyddiadau.

Mae gennym hefyd wefan sy'n rhestru'r holl bethau gallwch wneud i ddefnydio'r Gymraeg tu allan i'r dosbarth: Gwefan Mwynhau eich Cymraeg

In order to succeed in learning the language, you need to practise your Welsh outside class. On 60 and 120 hours-a-year courses, it is suggested that you complete 18 hours of practice outside class. This could include 'Coffi a Chlonc' (chat groups), listening to the radio, watching S4C etc. For more intensive courses, it is suggested that you do 36 hours of practice outside class.

Our Marketing and Learner Experience Manager, Gwenllian Willis, will email you on a weekly basis with details on activities and events.

We also have a website that lists all the things you can do to use your Welsh outside of the classroom: Enjoy Your Welsh website

Sut dych chi'n dysgu iaith orau? // How do you learn a language best?

Dych chi'n gwybod beth yw'r ffordd orau o ddysgu'r Gymraeg? Sut dych chi'n dysgu orau? Bydd y tiwtor yn esbonio yn y wers gyntaf beth i'w ddisgwyl o safbwynt y ffyrdd rydym yn dysgu a sut mae'r cwrs yn gweithio.

Er hyn, cofiwch esbonio i'ch tiwtor sut dych chi'n dysgu orau – bydd hwn yn werthfawr i'r tiwtor wybod.

Do you know which is the best way to learn Welsh? How do you learn best? During the first lesson, the tutor will explain to you what you should expect from how we teach and how the course works.

However, remember to explain to the tutor how you learn best – this will be valuable information to the tutor.

Ymwelwyr i'r Dosbarth – Arsylwi Gwersi // Classroom Visitors – Lesson Observation

Mae'n bosibl bydd ymwelwyr yn dod i mewn i'r dosbarth o dro i dro i arsylwi'r tiwtoriaid yn dysgu. Nid arsylwi'r dysgwyr yw pwynt yr ymweliadau. Fodd bynnag, bydd rheolwyr, dilyswyr ac arolygwyr yn edrych ar ba mor dda dych chi'n gwneud cynnydd ac efallai bydd y rheolwyr a'r arolygwyr eisiau siarad â chi fel dosbarth am eich profiad. Hoffen ni ofyn i chi ymlaen llaw am eich cydweithrediad yn hyn o beth. Mae'r broses yn sicrhau ansawdd a gwellhad parhaus.

It is possible that visitors will come into the class from time to time to observe the tutor teaching. The visits are not to observe the learners. However, managers, verifiers and inspectors will look at how well you are progressing, and the managers and inspectors they may wish to speak with the class about your experience. We would like to ask you in advance for your co-operation with regard to this. The process guarantees quality assurance and continuing improvement.

Dysgu Anffurfiol // Non-formal Learning

Mae'n bwysig eich bod yn ymarfer eich Cymraeg y tu allan i'r dosbarth mewn cyd-destunau mwy anffurfiol. Dyn ni felly wedi paratoi rhaglen o weithgareddau ar eich cyfer. Mae'r rhain yn cynnwys cyrsiau Sadwrn neu penwythnos gyda thiwtor, neu sesiynau anffurfiol gan gynnwys cwisiau, sgwrs dros baned, teithiau cerdded, clybiau darllen, nosweithiau ffilm a dramâu. Mae rhai'n digwydd yn rhithiol, a rhai'n digwydd wyneb-yn-wyneb.

Byddwch chi'n derbyn ebyst rheolaidd am yr holl weithgareddau sydd ar gael i chi os dych chi'n dewis. Cofiwch gadw golwg ar ein tudalennau Facebook a Instagram gael y newyddion diweddaraf.

It's important that you practise your Welsh outside of the classroom in a more informal context. We have arranged a full programme of events. These include Saturday or weekend courses with a tutor, and informal sessions including quizzes, a cuppa and a chat, walking tours, reading clubs and film and drama nights. Some will be virtual, and some will be face-to-face.

You'll receive regular email if you choose. Keep an eye on our Facebook and Instagram for all the latest news.

Recordio Gwersi a Chopïo Deunyddiau Dysgu // Recording Lessons and Copying Teaching Materials

Yn ystod eich amser yn dysgu gyda ni, bydd gyda chi fynediad at amrywiol ddigwyddiadau a deunyddiau dysgu. Gall rhai o'r rhain fod wedi eu hamddiffyn gan hawlfraint y Deyrnas Gyfunol a chyfreithiau Diogelu Data. Mae'n hollbwysig felly eich bod yn deall yr angen i gydymffurfio â'r gyfraith wrth ddefnyddio'r deunyddiau hyn.

Yn anffodus, ni allwn ganiatáu recordio unrhyw addysgu arlein oherwydd problemau preifatrwydd a hawlfraint.

During your time learning with us, you will have access to various learning and teaching events and materials which may, in some way, be protected by UK copyright and Data Protection laws. It is essential that you understand that you will need to observe the law when using these materials.

Unfortunately, we cannot permit recording of any online teaching due to privacy and copyright issues.

Rhaid cydymffurfio â'r gyfraith, gan gynnwys y Ddeddf Hawlfraint Cynllunio a Phatentau 1988 a'r Ddeddf Diogelu Data 1998 wrth gopïo unrhyw ddeunyddiau dysgu a recordio digwyddiadau dysgu.

Mae rhagor o fanylion am y deddfau hawlfraint ar wefan y Llywodraeth.

All copying of teaching materials and recording of teaching events must comply with the law, including the Copyright Designs and Patents Act 1988 and Data Protection Act 1998.

More information can be found on the Government's website.

Dyddiadau tymor // Term Dates

Hanner tymor Hydref // Autumn half term	26/10/2026 – 30/10/2026
Diwedd tymor – cyrsiau dwys // End of term – intensive courses	21/12/2026 – 01/01/2027
Diwedd tymor – cyrsiau eraill // End of term – other courses	14/12/2026 – 01/01/2027
Hanner tymor Gwanwyn // Spring half term	08/02/2027 – 12/02/2027
Gwyliau Pasg // Easter Holidays	22/03/2027 – 02/04/2027
Gŵyl y banc // Bank Holiday	03/05/2027
Hanner tymor haf // Summer half term	31/05/2027 – 04/06/2027

Mae dyddiadau pwysig eich cwrs chi (dechrau, gorffen, gwyliau) ar y **cynllun gwaith** byddwch chi'n ei gael gan eich tiwtor.

Important dates for your course (start, end, holidays) are on the **scheme of work** your will receive from your tutor.

Colli gwers(i) // Unable to attend lesson(s)

Disgwylir i ddysgwyr roi gwybod i ddarparwr eu cyrsiau, naill ai drwy law'r tiwtor neu drwy ein ffonio (**029 208 74710**) neu ebost: **dysgucymraeg@cardiff.ac.uk** os na fydd modd iddyn nhw fynychu gwers(i).

Mae disgwyl i ddysgwyr fod yn bresennol ym mwyafrif eu gwersi (85% +). Mae ein cyrsiau ni'n boblogaidd iawn ac yn aml mae rhestr aros gyda nhw. Dyn ni'n archwilio ein cofrestri'n rheolaidd i sicrhau bod pob dysgwr yn dal i fynychu eu cwrs. Os byddwch chi'n absennol am gyfnod, bydd eich tiwtor neu'n swyddfa mewn cysylltiad i wirio'ch bod yn dymuno parhau â'ch cwrs. Os ydych yn absennol am 4 wythnos ar y tro, mi fyddwn yn eich tynnu yn awtomatig o'r cwrs. Bydd angen i chi gysylltu â ni neu eich tiwtor er mwyn cael dod nol ar gofrestr y cwrs.

Ein blaenoriaeth ni yw i chi wneud cynnydd ac i fwynhau eich cwrs, a byddwn ni'n gwneud cymaint â gallwn ni i'ch cefnogi chi gyda hynny.

Learners are expected to let the course provider know, either through their tutor or by phoning us (**029 208 74710**) or email: **dysgucymraeg@cardiff.ac.uk** if they are unable to attend a lesson(s).

We expect learners to be present in the majority of their lesson (85% +). Our courses are very popular and often have waiting lists. We regularly audit our registers to ensure that all learners are still attending their courses. If you have a period of absence, your tutor or our office team may contact you to check that you wish to continue with your course. If you are absent for 4 weeks at a time, you will automatically be removed from the register. You will need to contact us or your tutor to be be able to return to the class.

Our priority is for you to enjoy your course and make progress, and we will do as much as we can to support you to do so.

Beth sy'n digwydd pan fydd eich tiwtor yn absennol // What to do when your tutor is absent

Mewn achosion prin lle bo'ch tiwtor yn absennol, byddwn yn gwneud ein gorau i gyflenwi'r wers. Os nad yw'r tiwtor wedi cyrraedd o fewn 15 munud, dylech chi ffonio'r Tîm Dysgu Cymraeg Caerdydd ar (**029**) **20874710**.

If your tutor is unavailable, we will do our best to organise for one of our other tutors to teach your class. If your tutor hasn't arrived within 15 minutes, you should phone the Learn Welsh Cardiff Team on (**029**) **2087 4710**.

Trosglwyddo i gwrs arall // Transferring to another course

Os hoffech chi drosglwyddo i gwrs arall yn ystod y flwyddyn academaidd hon (e.e. i gwrs ar noson neu amser gwahanol), cysylltwch â **dysgucymraeg@cardiff.ac.uk**

If you would like to transfer to another course during this academic year (e.g. to a course on a different night or at a different time), please contact **dysgucymraeg@cardiff.ac.uk**

Deddf Diogelu Data // The Data Protection Act

Mae Prifysgol Caerdydd yn 'Rheolydd Data', sy'n golygu ei bod yn gofrestredig gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth i brosesu data personol at ddibenion penodol (Cofrestredig Z6549747). Data personol yw unrhyw ddata o'r hyn y gellir adnabod unigolyn byw.

Am wybodaeth bellach ar sut y cedwir eich data gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, ewch i: https://dysgucymraeg.cymru/

Cardiff University is a 'Data Controller', which means that it is registered with the Information Commissioner to process personal data for specific purposes (Registration Z6549747). Personal data is any data from which a living individual can be identified.

For further information on how your data is stored by the National Centre for Learning Welsh, please go to: https://learnwelsh.cymru/

Adnoddau a Deunyddiau Dysgu // Resources and Teaching Materials

Dysgu Cymraeg / Learn Welsh

https://learnwelsh.cymru/learning/resource-library/

Gwefan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, gyda adnoddau sy'n cydfynd â'r cwrslyfrau yn ogystal ag adnoddau eraill defnyddiol.
The National Centre for Learning Welsh's website, with resources to accompany the coursebooks as well as other useful resources.

Duolingo

https://www.duolingo.com/course/cy/en/Learn-Welsh-Online

Safle ac ap poblogaidd iawn i ddysgu Cymraeg.
A popular online language learning site and app.

Quizlet

http://quizlet.com/subject/welsh/

Cardiau fflach er mwyn dysgu ac adolygu geirfa.
Flashcards to learn and revise vocabulary.

S4C

http://www.s4c.cymru/cy/dysgu-cymraeg/

Gwefan S4C ar gyfer dysgwyr – yn cynnwys rhaglenni wedi'u teilwra ar gyfer dysgwyr.
S4C [Welsh language broadcaster] learners website – includes programmes tailored for learners.

CBAC – WJEC

https://www.cbac.co.uk/qualifications/welsh-for-adults/

Gwybodaeth am adnoddau ac arholiadau Dysgu Cymraeg.
Information about Learn Welsh resources and examinations.

Memrise

Gwefan ac ap Memrise – adnodd er mwyn dysgu ac adolygu geirfa.
Mae cyrsiau ar gael i gyd-fynd â'r cwrslyfrau Mynediad – Uwch 3.
Memrise website and app – a resource for learning and revising vocabulary.
Courses are available to accompany the Entry – Advanced 3 coursebooks.

Mynediad Rhan 1 | Entry Part 1

Mynediad Rhan 2 | Entry Part 2

Sylfaen | Foundation

Canolradd | Intermediate

Uwch 1 | Advanced 1

Uwch 2 | Advanced 2

Uwch 3 | Advanced 3

Geiriaduron Ar-lein // Online Dictionaries

http://geiriadur.bangor.ac.uk/

Fersiwn ar-lein o'r Ap Geiriaduron ar gyfer ffonau symudol.
An online version of the Ap Geiriaduron for mobile devices.

http://www.gweiadur.com/

Prosiect i greu geiriadur ac adnoddau amlgyfrwng ar gyfer defnyddwyr y Gymraeg o bob oedran a gallu.
A project to create a multimedia dictionary and resources for Welsh speakers of all ages and ability.

http://www.geiriaduracademi.org/

Geiriadur Saesneg-Cymraeg ar-lein yr Academi Gymreig.
Online English-Welsh dictionary from the Welsh Academy.

http://www.geiriadur.ac.uk/

Geiriadur Cymraeg Prifysgol Cymru –
y geiriadur hanesyddol safonol Cymraeg.
University of Wales Welsh Dictionary –
the standard historical Welsh dictionary.

Dysgu rhithol // Virtual Learning

Byddwch yn ddiogel ar-lein // Be safe online

- Peidiwch â rhannu'r manylion Zoom gyda neb arall
- Cofiwch bod pawb yn gallu gweld beth sydd tu ôl i chi! Peidiwch ag eistedd o flaen pethau dych chi eisiau cadw'n breifat (e.e. lluniau teulu, biliau/llythyrau gyda'ch cyfeiriad ar hysbysfwrdd)
- Byddwch chi'n cael enw defnyddiwr Prifysgol Caerdydd a chyfrinair i'w defnyddio er mwyn cael mynediad at Zoom. Does dim angen i chi greu cyfrif eich hun.
- Mae Prifysgol Caerdydd yn ofalus iawn i sicrhau ein bod yn amddiffyn eich diogelwch a'ch preifatrwydd wrth ddefnyddio Zoom yn yr un modd ag y bydden ni mewn ystafell ddosbarth draddodiadol. Mae hyn yn cynnwys defnyddio nifer o nodweddion i sicrhau bod eich profiad ar Zoom gyda ni yn un diogel a phositif.
- Don't share the Zoom details with anyone else
- Remember that everyone can see what's behind you!
- Don't sit in front of things you want to keep private (e.g. family photos, bills/letters with your address on a noticeboard)
- You will receive a Cardiff University username and password to use to access Zoom. You do not need to create your own account.
- Cardiff University is very careful to make sure that we safeguard your privacy as you use Zoom, in the same way as we would in a traditional classroom. This includes the use of a number of features that ensure that your experience on Zoom with us is a safe and positive one.

Os dych chi'n cael problem cysylltu â'r dosbarth, ffoniwch y swyddfa ar 029 2087 4710

Os dych chi'n cael problem cysylltu â'r dosbarth, ffoniwch y swyddfa ar 029 2087 4710

Cysylltiadau // Contacts

Dysgu Cymraeg Caerdydd // Learn Welsh Cardiff

029 2087 4710

dysgucymraeg@cardiff.ac.uk

Ein tîm hŷn // Our senior team

Anna Jones

Cyfarwyddwr Dysgu Cymraeg Caerdydd / Director Learn Welsh Cardiff

Dr Sara Orwig-Palmer

Uwch Diwtor: Ansawdd a Data / Senior Tutor: Quality and Data

Jo Robinson

Tiwtor Hŷn: Dysgu ac Addysgu / Senior Tutor: Teaching and Learning

Ashleigh Hurford

Tiwtor Hŷn: Hyfforddiant / Senior Tutor: Training

Gwenllian Willis

Rheolwr Marchnata a Chefnogi Dysgwyr /
Marketing and Learner Support Manager

Gwenno Healy

Rheolwr Busnes / Business Manager